| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **3 TACHWEDD 2015** |
| **TEITL:** | **CYMERADWYAETH I GYCHWYN YMGYNGHORIAD STATUDOL AR DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT - DEDDF TRWYDDEDU 2003** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003, mae angen i bob awdurdod Trwyddedu, cyhoeddi datganiad o bolisi Trwyddedu pob 5 mlynedd.

1.2 Yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gadw ei bolisi o dan sylw a gwneud diwygiadau o'r fath ystyrir yn briodol. Ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu amnewid ei bolisi.

1.3 Cafodd y datganiad o bolisi presennol ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 16 Rhagfyr 2010.

1.4 Mae'r cyfnod 5 mlynedd yn dod i ben 6 Ionawr 2016. Mae rhaid i'r Cyngor fod wedi penderfynu a chyhoeddi ei bolisi newydd erbyn y dyddiad hwn.

## 2.0 CYDWEITHIO

2.1 Fel rhan o'r prosiect cydweithio Gwarchod y Cyhoedd ar draws Gogledd Cymru, sefydlwyd Grŵp Tasg i weithio gyda'i gilydd i geisio creu datganiad o bolisi trwyddedu 'cyffredin' ar draws Gogledd Cymru.

2.2 Cytunodd y Grŵp Tasg strwythur 'Cynnwys' y polisi, fodd bynnag, oherwydd y ffactorau economaidd a cymdeithasol gwahanol sy'n effeithio pob awdurdod mae pob datganiad wedi ei eirio'n wahanol ac yn parhau i fod yn berthnasol i'w ardal benodol.

2.3 Mae datganiadau presennol y Cynghorau Gogledd Cymru eisoes yn debyg iawn. Mae hyn yn parhau i fod yn wir ar gyfer y datganiadau olynol. (Gwelir copi o'r datganiad o bolisi trwyddedu presennol yn Atodiad A.)

## 3.0 ADDASIADAU I'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU

3.1 Gwelir copi o'r datganiad o bolisi drafft newydd yn Atodiad B. Mae'r polisi drafft newydd wedi ei addasu fel a ganlyn:-

3.2 Mae fformat a chynllun y polisi wedi ei ddiweddaru er mwyn hwyluso'r darllenydd i ddod o hyn i wybodaeth yn gynt ac yn haws.

3.3 Mae 'Cynnwys' y polisi wedi ei ddiwygio i gydymffurfio a'r strwythur polisi y cytunwyd arno. Mae adrannau ac isadrannau wedi cael eu creu er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol ar faterion a phwerau sydd wedi dod i'r rym ers i'r polisi presennol cael ei fabwysiadu yn 2010. Er enghraifft, Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar ac Ardoll Hwyr y Nos.

3.4 Mae geiriad y polisi wedi ei addasu er mwyn cyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol. Er enghraifft, mae diffiniad adloniant wedi ei rheoleiddio wedi ei addasu'n sylweddol yn dilyn y Ddeddf Cerddoriaeth Byw 2012 a'r Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

3.5 Er y newidiadau hyn nid yw ysbryd na gweledigaeth y polisi wedi newid.

## 4.0 YMGYNGHORIAD

4.1 Yn unol â'r Ddeddf, mae'r Polisi trwyddedu drafft newydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tan & Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion y sir
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrif gyfredol

4.2 Yn ogystal â'r uchod, fydd yr Uned Trwyddedu yn cysylltu â phob Cynghorydd, Cyngor Cymuned ac awdurdod cyfrifol. Bydd y polisi adnewyddu drafft ar gael i'w harchwilio ym mhob Siop Gwynedd a bydd ar gael i'w weld ar-lein.

4.3 Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 21 diwrnod. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriadau blaenorol wedi bod yn isel. Ni ragwelir y bydd llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad yma oherwydd nid yw'r polisi drafft newydd yn cynnwys unrhyw newidiadau dadleuol i'r polisi cyfredol.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir y Pennaeth Adran Rheoleiddio am gymeradwyaeth gan y Pwyllgor i gychwyn yr ymgynghoriad statudol ar y Datganiad o Bolisi Trwyddedu drafft.

5.2 Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd unrhyw bryderon a godir am y polisi drafft newydd yn cael eu hystyried a bydd newidiadau yn cael eu gwneud i'r polisi yn ôl yr angen.

5.3 Ar ôl cymeradwyaeth gan y pwyllgor hwn, bydd y polisi newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ei ystyried ar 10 Rhagfyr 2015